

Goblygiadau ariannol Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

Tachwedd 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Goblygiadau ariannol Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

Tachwedd 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Cadeirydd y Pwyllgor:



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Rhun ap Iorwerth AC
Plaid Cymru



Alun Davies AC
Llafur Cymru



Mike Hedges AC
Llafur Cymru



Rhianon Passmore AC
Llafur Cymru



Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig



Mark Reckless AC
Plaid Brexit

Cynnwys

Argymhellion a chasgliad	5
1. Cyflwyniad.....	6
2. Cefndir.....	7
Newidiadau yn y DU sy'n effeithio ar indemniadau Ymarferwyr Cyffredinol	8
Cyd-destun Cymru.....	8
Costau cysylltiedig.....	9
Amcangyfrif o'r atebolrwyddau.....	10
Safbwynt y Pwyllgor.....	13

Argymhellion a chasgliad

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi cyfanswm gwerth y trosglwyddiad asedau o'r Sefydliadau Amddiffyn Meddygol yn ei chyfrifon cyfunol a osodir gerbron y Cynulliad..... Tudalen 14

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu'r ffaith nad yw'n rhagweld costau ychwanegol i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru pan fydd yn dechrau rheoli'r cynllun atebolrwyddau cyfredol o fis Ebrill 2021..... Tudalen 14

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn gyffredinol fodlon ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol..... Tudalen 13

1. Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Indemniadau) (Cymru) (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol, gan gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog) ar 14 Hydref 2019.

2. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai diben y Bil yw diwygio Adran 30 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (Deddf GIG Cymru) (Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau etc rhai o gyrff y gwasanaeth iechyd gwladol) er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch indemnio treuliau ac atebolrwyddau corff neu berson sy'n codi mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau iechyd.

3. Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil ar 23 Hydref 2019 gan:

- Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gofal Sylfaenol, Llywodraeth Cymru; a
- Tim Edds, Cyfreithiwr, Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Llywodraeth Cymru

4. Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a graffodd ar bolisi'r Bil.

2. Cefndir

5. Mae sicrwydd esgeuluster clinigol yn un o amodau cofrestru yn y DU ar gyfer holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u rheoleiddio, ac yn achos ymarferwyr meddygol (h.y. Ymarferwyr Cyffredinol), mae'n un o amodau trwydded o dan adran 44C o Ddeddf Feddygol 1983.¹

6. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio y gall y sicrwydd fod yn bolisi yswiriant, yn drefniant indemniad, neu'n gyfuniad o'r ddau. Mae'r mwyafrif o Ymarferwyr Cyffredinol yn y DU fel rheol yn cael sicrwydd indemniad fel un o fuddion eu haelodaeth gan un o'r tri o Sefydliadau Amddiffyn Meddygol (MDOs), sefydliadau cydfuddiannol ddim er elw a berchnogir gan eu haelodau ac sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ddarparu indemniad a chyngor i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.²

7. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi yr amcangyfrifir bod cost indemniad wedi codi 7 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2013 a 2017. Ymysg y ffactorau sy'n arwain at godi costau indemniad mae poblogaeth sy'n heneiddio; arloesi technolegol mewn meddyginiaeth sy'n cadw pobl yn fyw am gyfnod hwy; cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw â chyflyrau cymhleth a diwylliant o hawlio iawndal.³ Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod dirywiad yn ansawdd y gofal wedi arwain at gynnydd mewn costau indemniad.”⁴

8. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn crybwyll y cynnydd mewn costau indemniad (fel y'i hadlewyrchir yn nghanysgrifiadau MDO) fel un o'r rhesymau paham y mae Ymarferwyr Cyffredinol yn gostwng eu horiau, ac os bydd y duedd yn parhau, fe allai greu prinder pellach o Ymarferwyr Cyffredinol gan y cânt eu gyrru i ffwrdd o'r proffesiwn yn gynyddol gan arwain at effaith ar ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru, fel rhan o'r newidiadau i gontract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer 2017/18, i ddatblygu ateb i'r mater hwn.⁵

¹ Memorandwm Esboniadol, tudalen 4

² Memorandwm Esboniadol, tudalen 4

³ Memorandwm Esboniadol, tudalen 4

⁴ Memorandwm Esboniadol, tudalen 4

⁵ Memorandwm Esboniadol, tudalen 4

Newidiadau yn y DU sy'n effeithio ar indemniadau Ymarferwyr Cyffredinol

9. Ar 27 Chwefror 2017, cyhoeddodd⁶ yr Arglwydd Ganghellor newid i Gyfradd Ddisgownt Anafiadau Personol (PIDR) (sef y gyfradd a ddefnyddir i gyfrifo'r iawndal sy'n daladwy mewn perthynas â cholledion ariannol) o 2.5 y cant i finws 0.75 y cant. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, o ganlyniad i'r newid hwn, cafwyd cynnydd sylweddol yng nghost hawliadau mawr ar gyfer anaf personol. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mawr yng nghost bodloni atebolrwyddau hanesyddol ar gyfer MDOs, darparwyr presennol sicrwydd indemniad proffesiynol ar gyfer ymarferwyr meddygol. Gan mai cyrff cydfuddiannol yw MDOs, ni ellid talu am y cynnydd hwn ond trwy gynyddu costau tanysgrifiad aelodaeth ymhellach. Amcangyfrifwyd y byddai angen i bremymau indemniad gynyddu 25 y cant i ariannu'r newid yn PIDR.⁷

10. Mewn ymateb i effaith y newid i PIDR a chost gynyddol indemniad yn ehangach ar y farchnad amddiffyn meddygol, ym mis Hydref 2017 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr fwriad i sefydlu cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth ac a ariennir gan y llywodraeth i ddarparu sicrwydd indemniad esgeuluster clinigol ar gyfer darparwyr gwasanaethau Ymarferwyr Cyffredinol yn Lloegr.⁸

Cyd-destun Cymru

11. Ar 14 Mai 2018,⁹ cyhoeddodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth i ddarparu indemniad esgeuluster clinigol i ddarparwyr gwasanaethau Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru.

12. Fe wnaeth Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeuluster Clinigol) (Cymru) 2019 sefydlu Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol (FLS), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019 yn cwmpasu'r holl Ymarferwyr Cyffredinol â chontract GMS a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gweithio yn ymarfer cyffredinol y GIG o'r dyddiad hwnnw. Mae FLS yn cael ei weinyddu gan Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn unol â Chyfarwyddydau'r Cynllun.

⁶ <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-indemniad-proffesiynol-i-ymarferwyr-cyffredinol>

⁷ Memorandwm Esboniadol, tudalen 5

⁸ Memorandwm Esboniadol, tudalen 5

⁹ <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-indemniad-proffesiynol-i-ymarferwyr-cyffredinol>

Esgeuluster Clinigol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG a'r Byrddau Iechyd Lleol (Gweinyddu) (Cymru) 2019.

13. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod yr FLS yng Nghymru wedi cydfynd cyn belled â phosibl â'r cynllun a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 1 Ebrill 2019 ar gyfer Lloegr. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod hyn wedi sicrhau nad yw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu ag Ymarferwyr Cyffredinol yn Lloegr a bydd hefyd yn helpu i sicrhau na fydd unrhyw effaith negyddol ar weithgarwch trawsffiniol neu recriwtio Ymarferwyr Cyffredinol yn sgil gwahanol gynlluniau yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr.¹⁰

14. Ar 15 Tachwedd 2018¹¹ cadarnhaodd y Gweinidog yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru, fel rhan o'r cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth, i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ystyried atebolrwydd Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer yr hawliadau esgeuluster clinigol hanesyddol hynny yr adroddwyd arnynt, neu yr aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt, cyn 1 Ebrill 2019. Bydd y Cynllun Atebolrwyddau Presennol (yr ELS) yn ddarostyngedig i gwblhau diwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol a negodiadau boddhaol â'r MDOs.¹²

Costau cysylltiedig

15. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro bod costau'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil, unwaith y bydd adran 30 o Ddeddf GIG Cymru wedi'i diwygio. Roedd y costau hyn, sy'n £30,000 yn ôl yr amcangyfrif, yr eir iddynt yn 2019/20, yn cynnwys cymorth cyfreithiol allanol i weithredu'r Bil gan ddefnyddio'r pwerau newydd y Cynllun Indemniad Uniongyrchol i wneud rheoliadau a gyflwynir gan y Bil.¹³

16. Nododd y Gweinidog fod cymorth cyfreithiol allanol wedi'i ddefnyddio yn hytrach na defnyddio cynghorwyr cyfreithiol Llywodraeth Cymru, "[as a] matter of expediency to make sure we're able to undertake the Bill and the regulations in the requisite period of time".¹⁴ Aeth ymlaen i ddweud:

"It's the same sort of cost envelope that we would otherwise have for introducing a scheme of regulations."¹⁵

¹⁰ Memorandwm Esboniadol, tudalen 6

¹¹ <https://llyw.cymru/cyhoeddir-partner-ffefrir-ar-gyfer-cynllun-indemniad-newydd-i-ymarferwyr-cyffredinol-cymru>

¹² Memorandwm Esboniadol, tudalen 6

¹³ Memorandwm Esboniadol, tudalen 19

¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 165, 23 Hydref 2019

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 165, 23 Hydref 2019

Amcangyfrif o'r atebolrwyddau

17. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad oes yr un MDO wedi llofnodi cytundeb ELS a chydabu'r Gweinidog fod trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cymru a'r tri MDO.¹⁶ Dywedodd:

"Two of the three, we're in a position where agreement is imminent. Two out of the three have already signed agreements with the UK Government for England. We're in a good position with those as well. The third, we're looking to have more open conversations with them. They've held back from doing so up to now, but we're hopeful that that will now crystallise into more constructive and open conversations with us."¹⁷

18. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r amcangyfrif presennol o'r atebolrwyddau a gâi eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru oedd cytundeb ELS i'w lofnodi gyda phob MDO yw tua £100m cyn i asedau gael eu trosglwyddo. Nid yw'r amcangyfrif o £100m am atebolrwyddau yn gost ddisgwyliedig i Lywodraeth Cymru am nad yw'n cymryd i ystyriaeth unrhyw drosglwyddiadau asedau o MDOs.¹⁸

19. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r un cyngor ariannol a chyfreithiol â Llywodraeth y DU i asesu beth yw natur yr asedau a'r atebolrwyddau hynny. Dywedodd fod y £100m yn asesiad teg, cyn trosglwyddo asedau.¹⁹ Ychwanegodd:

"But, of course, that's the figure before we undertake the transfer of assets in the exchange of liabilities. So, the actual number will be smaller, but, of course, we have engaged some external legal and financial support in the whole of this scheme, and we've done that consistently with the UK Government as well."²⁰

20. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog sut y byddai'n ymdrin ag unrhyw atebolrwyddau ychwanegol sy'n fwy na'r £100 miliwn. Fe wnaeth y Gweinidog roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod eisoes gan Lywodraeth Cymru beth profiad o weithredu

¹⁶ Memorandwm Esboniadol, tudalen 19

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 183, 23 Hydref 2019

¹⁸ Memorandwm Esboniadol, tudalen 19

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 170, 23 Hydref 2019

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 170, 23 Hydref 2019

cynllun tebyg, sef Cronfa Risg Cymru, sy'n ystyried clinigwyr gofal eilaidd yng Nghymru.²¹ Ychwanegodd:

“Given that the £100 million figure would reduce when you do then factor in the transfer of assets, following negotiation with those three MDOs, I think people should take a measure of confidence that we've got the resource and the ability to be able to run that and to be able to stand behind the costs that exist. But, of course, there is always a caveat in any insurance environment that it depends on the claims that you do or don't get. But, within that, I've indicated—and perhaps we can copy the letter to you—the way that we expect the scheme to work in terms of some capping provision against future claims to be made. So we can provide you with the same letter we're going to send to the Health, Social Care and Sport Committee as well, just for completeness' sake.”²²

21. Wedi hynny, ysgrifennodd y Gweinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, gan ddweud:

“Gallai gwerth gwirioneddol yr atebolrwyddau wamalu yn ôl patrymau amllder hawliadau, hysbysiadau hawliadau a gwerth hawliadau sydd wedi'u setlo. Ni chaiff yr atebolrwyddau hyn eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru os gellir cytuno ar drosglwyddiad priodol o asedau â'r MDO sy'n cymryd rhan. Nid yw'r amcangyfrif o £100m am atebolrwyddau yn gost ddisgwyliedig i Lywodraeth Cymru am nad yw'n cymryd i ystyriaeth unrhyw drosglwyddiadau asedau o MDOs.”

22. Parhaodd y llythyr drwy ddweud y canlynol:

“Os bydd atebolrwyddau'n fwy na'r amcangyfrif, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo'r risg bod gwerthoedd hawliadau'n fwy na'r rhai a ragwelwyd trwy waith diwydrwydd dyladwy. Yn yr un modd, bydd Llywodraeth Cymru'n elwa ar unrhyw hawliadau sy'n cael eu setlo ar werth is gan y gallai atebolrwyddau wamalu yn ôl patrymau amllder hawliadau, hysbysiadau hawliadau a gwerth hawliadau sydd wedi'u setlo. Yn ogystal, mae rhyw lefel o amddiffyniad o fewn y contractau sy'n cael eu negodi os bydd atebolrwyddau'n digwydd bod yn sylweddol uwch na'r disgwyl ar ffurf rhyw fath o rannu risg ag MDOs sy'n cymryd rhan... Disgwylir i'r goblygiadau ariannol net yn achos

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 172, 23 Hydref 2019

²² Cofnod y Trafodion, paragraff 172, 23 Hydref 2019

Llywodraeth Cymru fod o fewn y ffiniau a nodwyd pan benderfynwyd ymrwymo i ELS. Yn dâl am hynny, byddai'r trefniadau ELS yn cryfhau sefydlogrwydd darpariaeth indemniad a fydd yn rhoi sicrwydd i gleifion mewn perthynas â hawliadau esgeuluster clinigol cyn Ebrill 2019 am iawndal.”

23. Nid oedd y Gweinidog yn gallu rhoi unrhyw arwydd i'r Pwyllgor beth fyddai lefel y trosglwyddiadau asedau gan fod y wybodaeth yn rhan o natur gyfrinachol fasnachol y sgysiau yr oedd yn eu cael gyda'r MDOs.²³ Dywedodd y Gweinidog:

“I think you'll understand why they wouldn't necessarily want to make open the nature of the assets and liabilities they think they're carrying.”²⁴

24. Amlinellodd swyddog y Gweinidog sut y byddai Llywodraeth Cymru yn rheoli ac yn gwneud y mwyaf o werth yr asedau:

“... the intention is that the transfer of assets would be aligned with how the Department of Health and Social Care in England have transferred those assets into HM Treasury. The decisions around the utilisation of those assets would align with strategic budgeting, in terms of the budget process that, of course, goes to the Assembly. So, it's a new activity for Welsh Government to have that block of assets to utilise, and so consideration and engagement has taken place to ensure that it aligns with the budget and we use those effectively.”²⁵

25. Holodd y Pwyllgor pam nad oedd amcangyfrif ar gyfer cost rheoli'r cynllun atebolrwyddau presennol wedi cael ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dywedodd swyddog y Gweinidog:

“The handling of claims up until April 2021 will be undertaken by the participating MDO, such that the operational responsibility remains with those MDOs who we reach an agreement with. After April 2021, the activity will be undertaken by NHS Wales Shared Services Partnership Legal and Risk Services.”²⁶

26. Aeth ymlaen i ddweud:

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 187, 23 Hydref 2019

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 187, 23 Hydref 2019

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 195, 23 Hydref 2019

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 201, 23 Hydref 2019

“As things stand, we do not anticipate that they need to expand their operating costs. So, at this moment in time, we believe they can take on the management of existing liability claims, which, of course, we’ve got another window up until 2021 ... And they reduce over time. We do not think there needs to be a change at this point, but we need to be open to have that discussion with them.”²⁷

Safbwynt y Pwyllgor

27. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â'r amcangyfrif o gost y Bil, sef £30,000, sy'n cynnwys cymorth cyfreithiol allanol i weithredu'r Bil gan ddefnyddio pwerau newydd y Cynllun Indemniad Uniongyrchol i wneud rheoliadau. Mae'r Pwyllgor yn derbyn y sicrwydd a roddwyd gan y Gweinidog y defnyddiwyd cymorth cyfreithiol allanol fel mater o hwylustod ac y byddai costau wedi bod yn debyg gan ddefnyddio cynghorwyr cyfreithiol Llywodraeth Cymru.

28. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio arbenigedd a chyingor gan yr un cynghorwyr ariannol a chyfreithiol a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod y rhwymedigaethau a'r asedau wedi cael eu hasesu'n deg ar gyfer Cymru.

29. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod amcangyfrif yr atebolrwyddau oddeutu £100 miliwn cyn trosglwyddo unrhyw asedau. Er bod y Gweinidog wedi dweud wrth y Pwyllgor y byddai'r ffigur hwn yn gostwng ar ôl ystyried y trosglwyddiad asedau, nid yw lefel y trosglwyddiadau asedau ar gael ar hyn o bryd. Mae'r wybodaeth hon yn gyfyngedig oherwydd ei sensitifrwydd masnachol a chytundebau peidio â datgelu rhwng Llywodraeth Cymru a'r MDOs. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael iddo pan fydd hynny'n ymarferol.

30. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y cynllun atebolrwyddau presennol yn cael ei gyflawni gan yr MDOs sy'n cymryd rhan ar gyfer ymdrin â hawliadau hyd at fis Ebrill 2021. Clywodd y Pwyllgor nad yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld costau ychwanegol i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru pan fydd yn dechrau rheoli'r cynllun o fis Ebrill 2021. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y wybodaeth hon yn berthnasol ac y dylai fod wedi cael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn gyffredinol fodlon ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 201 a 203, 23 Hydref 2019

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi cyfanswm gwerth y trosglwyddiad asedau o'r Sefydliadau Amddiffyn Meddygol yn ei chyfrifon cyfunol a osodir gerbron y Cynulliad.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu'r ffaith nad yw'n rhagweld costau ychwanegol i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru pan fydd yn dechrau rheoli'r cynllun atebolrwyddau cyfredol o fis Ebrill 2021.